Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Transport Authority

CCR Transport Authority Meeting

10.00am on Thursday 17 September 2020
Microsoft Teams Virtual Meeting

Minutes

Attendees

Members

Cllr Huw David (Chair)	(HD)	Bridgend County Borough Council
Cllr Richard Young	(RY)	Bridgend County Borough Council
Cllr John Ridgewell	(JR)	Caerphilly County Borough Council
Cllr Caro Wild	(CW)	Cardiff Council
Cllr Geraint Thomas	(GT)	Merthyr Tydfil County Borough Council
Cllr Jane Pratt	(JP)	Monmouthshire County Council
Cllr Roger Jeavons	(RJ)	Newport City Council
Cllr Ann Crimmings	(AC)	Rhondda Cynon Taf County Borough Council
Cllr Peter King	(PK)	Vale of Glamorgan Council

Officers

Ellie Fry	(EF)	Blaenau Gwent County Borough Council
Jonathan Parsons	(JN)	Bridgend County Borough Council
Marcus Lloyd	(ML)	Caerphilly County Borough Council
Clive Campbell	(CC	Caerphilly County Borough Council
Andrew Gregory	(AG)	Cardiff Council
Kellie Beirne	(KB)	CCR City Deal
Nicola Somerville	(NS)	CCR City Deal
Clare Cameron	(CC)	CCR City Deal
Suzanne Chesterton	(SC)	CCR City Deal
Nathan Llewellyn	(NL)	CCR City Deal
Liz Fitzgerald (minutes)	(ESF)	CCR City Deal
Gareth Gates	(GG)	CCR City Deal Accountable Body
James Williams	(JW)	CCR City Deal Accountable Body
Alun Evans	(AE)	Merthyr Tydfil County Borough Council
Anouska Beaumont (from 10:29)	(AB)	Merthyr Tydfil County Borough Council
Richard Cope	(RC)	Monmouthshire Council
Roger Waters	(RW)	Rhondda Cynon Taf County Borough Council
Michelle Mitchell	(MM)	Torfaen County Borough Council
Geoff Ogden (from 10:11)	(GO)	Transport for Wales
Kyle Phillips	(KP)	Vale of Glamorgan Council
Emma Reed	(ER)	Vale of Glamorgan Council

Apologies

Cllr Dai Davies	(DD)	Blaenau-Gwent County Borough Council
Cllr Andrew Morgan	(AM)	Rhondda Cynon Taf CBC
Cllr Amanda Owen	(AO)	Torfaen County Borough Council

Recording of the meeting started at 10:05.

ACTION

1. Welcome and Introductions

(1) Cllr David opened the meeting and apologies were noted.

(2) Cllr David welcomed Cllr Ridgewell who had joined as the new representative for Environment and Infrastructure at Caerphilly CBC. An induction session would be arranged for him with Cllr David and Clare. Cllr David expressed his thanks to Cllr Sean Morgan, the previous incumbent. **ESF**

Geoff Ogden joined at 10:11.

2. Declarations of Interest

Cllr Wild declared an interest in item 4 as it specifically related to investment in Cardiff.

3. Minutes from the Previous Meeting held on 4 June 2020 and Matters Arising

(1) The minutes of the meeting held on 4 June were agreed as a true and accurate record of the meeting, moved by Cllr King and seconded by Cllr Pratt.

(2) Roger confirmed that all actions had been resolved or moved and updated as part of the agenda.

4. Metro Central Update

(1) Roger introduced the report. He confirmed that Kellie was involved in the governance arrangements and a business case was being prepared. The potential impact on future demand due to the COVID-19 pandemic would be considered as the project moved forward.

(2) Cllr David thanked Roger for the report and noted the close partnership with Cardiff, Transport for Wales and Welsh Government which would ensure the project was progressed.

(3) Cllr Ridgewell asked how a workforce working from home would feed in; Roger said they were currently working through business cases and would assess this at the end of that process and before any work was carried out. Kellie said several paragraphs had been built into the business case to ensure it fed into the overall programme-level business case. Although there would be an increase they could expect to see a new blend of homeworking, office-based work and local working; there was still a very strong

ACTION

case to support public transport. Cllr David agreed that even if projections were lowered there would still be capacity issues at Cardiff Central and a bigger modal shift was required in the region.

(4) Cllr Pratt said that pollution before the pandemic was an issue due to the lack of investment over many years; one of the issues of the pandemic was that it had long-term implications. Clare said that Transport for Wales were adjusting the South East Wales Transport Model to consider different scenarios in relation to COVID.

(5) The motion to accept the recommendation of the report was moved by Cllr Thomas and seconded by Cllr Pratt.

(6) It was resolved that the CCRTA

(1) noted the update on the Metro Central Programme.

5. Metro Plus Update

(1) Roger introduced the report. It was agreed that the format of Appendix A would be reviewed to facilitate easier access to the information. **CC**

(2) Cllr David thanked Roger for his report. Cllr David noted there would always be issues with infrastructure projects but was pleased to see the progress and thanked all those involved.

(3) Cllr David asked Kellie about the next phase; Kellie confirmed that all schemes were making progress and they would need to consider applying a timeframe; if they could continue to make good and visible progress then they would be able to go back to Regional Cabinet to make a case.

(4) The motion to accept the recommendation of the report was moved by Cllr Young and seconded by Cllr Jeavons.

(5) It was resolved that the CCRTA

(1) noted the progress of the regional programme; Metro Plus Phase 1, Metro Plus Phase 2, MEF Corridors and CVL enhancements and the indicative allocations set out at Appendices A and B.

6. Ultra Low Emission Vehicles (ULEV) Update

(1) Roger introduced the report. The work was progressing and they were hoping to invite tenders towards the end of September with

ACTION

an additional piece of work to bring parties together. Sites that do not come into the first round will roll forward.

(2) Cllr David thanked Roger for the report.

(3) Cllr Ridgewell expressed concern about ongoing maintenance as local authorities were not able to undertake this. Roger agreed it would be a significant change in terms of local authority fleets. Local authorities would need support and assistance in transitioning from a predominantly diesel fleet to a mixed fleet in the future. The disruption to the planned roadshows was disappointing and it was agreed that better promotion and explanation was required in order to maintain community support.

(4) The motion to accept the recommendation of the report was moved by Cllr Jeavons and seconded by Cllr Young.

(5) It was resolved that the CCRTA

(1) noted the progress made on the project to deliver ULEV infrastructure to assist with the delivery of the ULEV Transformation as identified within the report.

Date of next public meeting: 10.00am-12.00pm on Thursday 26 November 2020

This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Transport Authority

Cyfarfod Awdurdod Trafnidiaeth PRC

10.00am ddydd Iau 17 Medi 2020
Cyfarfod rhithiwr ar Microsoft Teams

Cofnodion

Yn Bresennol

Aelodau

Y Cynghorydd Huw David (Cadeirydd)	(HD)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd Richard Young	(RY)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd John Ridgewell	(JR)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Y Cynghorydd Caro Wild	(CW)	Cyngor Caerdydd
Y Cynghorydd Geraint Thomas	(GT)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Cynghorydd Jane Pratt	(JP)	Cyngor Sir Fynwy
Y Cynghorydd Roger Jeavons	(RJ)	Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cynghorydd Ann Crimmings	(AC)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd Peter King	(PK)	Cyngor Bro Morgannwg

Swyddogion

Ellie Fry	(EF)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Jonathan Parsons	(JN)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Marcus Lloyd	(ML)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Clive Campbell	(CC)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Andrew Gregory	(AG)	Cyngor Caerdydd
Kellie Beirne	(KB)	Bargen Ddinesig P-RC
Nicola Somerville	(NS)	Bargen Ddinesig P-RC
Clare Cameron	(CC)	Bargen Ddinesig P-RC
Suzanne Chesterton	(SC)	Bargen Ddinesig P-RC
Nathan Llewellyn	(NL)	Bargen Ddinesig P-RC
Liz Fitzgerald (cofnodion)	(ESF)	Bargen Ddinesig P-RC
Gareth Gates	(GG)	Corff Atebol Bargen Ddinesig P-RC
James Williams	(JW)	Corff Atebol Bargen Ddinesig P-RC
Alun Evans	(AE)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Anouska Beaumont (o 10:29)	(AB)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Richard Cope	(RC)	Cyngor Sir Fynwy
Roger Waters	(RW)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Michelle Mitchell	(MM)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Geoff Ogden (o 10:11)	(GO)	Trafnidiaeth Cymru
Kyle Phillips	(KP)	Cyngor Bro Morgannwg
Emma Reed	(ER)	Cyngor Bro Morgannwg

Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Dai Davies	(DD)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Y Cynghorydd Andrew Morgan	(AM)	CBS Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd Amanda Owen	(AO)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Dechreuwyd y recordiad fideo o'r cyfarfod am 10.05.

CAM GWEITH-REDU

1. Croeso a Chyflwyniadau

(1) Agorodd y Cynghorydd David y cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

(2) Croesawodd y Cynghorydd David y Cynghorydd Ridgewell a oedd wedi ymuno fel cynrychiolydd newydd dros yr Amgylchedd a Seilwaith i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Byddai sesiwn cynefino yn cael ei threfnu ar ei gyfer gyda'r Cynghorwyr David a Clare. Mynegodd y Cynghorydd David ei ddiolch i'r Cynghorydd Sean Morgan, y cynrychiolydd blaenorol. **ESF**

Ymunodd Geoff Ogden am 10:11.

2. Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd Wild fuddiant yn eitem 4 gan ei fod yn ymwneud yn benodol â buddsoddi yng Nghaerdydd.

3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2020 a Materion yn Codi

(1) Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin yn gofnod gwir a chywir fel y'u cynigiwyd gan y Cynghorydd King a'u heilio gan y Cynghorydd Pratt.

(2) Cadarnhaodd Roger fod yr holl gamau gweithredu wedi'u datrys neu eu symud a'u diweddaru fel rhan o'r agenda.

4. Diweddariad Metro Canolog

(1) Cyflwynodd Roger yr adroddiad. Cadarnhaodd fod Kellie yn rhan o'r trefniadau llywodraethu a bod achos busnes yn cael ei baratoi. Byddai'r effaith bosibl ar y galw yn y dyfodol oherwydd pandemig COVID-19 yn cael ei hystyried wrth i'r project symud ymlaen.

(2) Diolchodd y Cynghorydd David i Roger am yr adroddiad a nododd y bartneriaeth agos â Chaerdydd, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru a fyddai'n sicrhau bod y project yn cael ei ddatblygu.

(3) Gofynnodd y Cynghorydd Ridgewell sut y byddai gweithlu sy'n gweithio gartref yn bwydo i mewn; dywedodd Roger eu bod yn gweithio drwy achosion busnes ar hyn o bryd ac y byddent yn

CAM GWEITH-REDU

asesu hyn ar ddiwedd y broses honno, a chyn i unrhyw waith gael ei wneud. Dywedodd Kellie fod sawl paragraff wedi'u cynnwys yn yr achos busnes er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei fwydo i'r achos busnes cyffredinol ar lefel rhaglen. Er y byddai cynnydd gallent ddisgwyl gweld cymysgedd newydd o weithio gartref, gweithio o'r swyddfa a gweithio lleol; roedd achos cryf iawn o hyd i gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus. Cytunodd y Cynghorydd David, hyd yn oed pe bai amcanestyniadau'n cael eu gostwng, y byddai problemau capasiti yng Nghanol Caerdydd o hyd a bod angen newid moddol mwy yn y rhanbarth.

(4) Dywedodd y Cynghorydd Pratt fod llygredd cyn y pandemig yn broblem oherwydd y diffyg buddsoddi dros flynyddoedd lawer; un o faterion y pandemig oedd bod iddo oblygiadau hirdymor. Dywedodd Clare fod Trafnidiaeth Cymru yn addasu Model Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru er mwyn ystyried gwahanol senarios mewn perthynas â COVID.

(5) Cynigiwyd derbyn argymhellion yr adroddiad gan y Cynghorydd Thomas a'i eilio gan y Cynghorydd Pratt.

(6) Penderfynwyd bod yr ATPRC yn

(1) nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Ganolog y Metro.

5. Diweddariad Metro a Mwy

(1) Cyflwynodd Roger yr adroddiad. Cytunwyd y byddai fformat Atodiad A yn cael ei adolygu er mwyn hwyluso mynediad haws at y wybodaeth. **(CDd)**

(2) Diolchodd y Cynghorydd David i Roger am ei adroddiad. Nododd y Cynghorydd David y byddai problemau bob amser gyda phrojectau seilwaith ond roedd yn falch o weld y cynnydd a diolchodd i bawb a oedd yn gysylltiedig.

(3) Gofynnodd y Cynghorydd David i Kellie am y cam nesaf; cadarnhaodd Kellie fod pob cynllun yn gwneud cynnydd a byddai angen iddynt ystyried cymhwyso amserlen; pe gallent barhau i wneud cynnydd da a gweladwy yna byddent yn gallu mynd yn ôl i'r Cabinet Rhanbarthol i gyflwyno achos.

(4) Cynigiwyd derbyn argymhellion yr adroddiad gan y Cynghorydd Young a'i eilio gan y Cynghorydd Jeavons.

(5) Penderfynwyd bod yr ATPRC yn

CAM GWEITH-REDU

(1) nodi cynnydd y rhaglen ranbarthol; Metro a Mwy Cam 1, Metro a Mwy Cam 2, Coridorau MEF a gwelliannau CVL a'r dyraniadau dangosol a nodir yn Atodiadau A a B.

6. Diweddariad ar Gerbydau Allyriadau Isel Iawn

(1) Cyflwynodd Roger yr adroddiad. Roedd y gwaith yn mynd rhagddo ac roeddent yn gobeithio gwahodd tendrau tua diwedd mis Medi gyda darn ychwanegol o waith i ddod â phartïon at ei gilydd. Bydd safleoedd nad ydynt yn dod o dan y rownd gyntaf yn cael eu dwyn ymlaen.

(2) Diolchodd y Cynghorydd David i Roger am yr adroddiad.

(3) Mynegodd y Cynghorydd Ridgewell bryder am waith cynnal a chadw parhaus gan nad oedd awdurdodau lleol yn gallu gwneud hyn. Cytunodd Roger y byddai'n newid sylweddol o ran fflydoedd awdurdodau lleol. Byddai angen cymorth a chefnogaeth ar awdurdodau lleol i drosglwyddo o fflyd disel yn bennaf i fflyd gymysg yn y dyfodol. Roedd yr aflonyddwch o ran y sioeau teithiol arfaethedig yn siomedig a chytunwyd bod angen gwell hyrwyddo ac esbonio er mwyn cynnal cefnogaeth gymunedol.

(4) Cynigiwyd derbyn argymhellion yr adroddiad gan y Cynghorydd Jeavons a'i eilio gan y Cynghorydd Young.

(5) Penderfynwyd bod yr ATPRC yn

(1) nodi'r cynnydd a wnaed ar y prosiect i ddarparu seilwaith Cerbydau Allyriadau Isel Iawn er mwyn helpu i gyflawni'r Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn fel y nodir yn yr adroddiad.

Dyddiad y cyfarfod cyhoeddus nesaf: 10.00am-12.00pm ddydd Iau 26 Tachwedd 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English